## IONAWR 2025

**Cynigion Gwella Adroddiadau Archwilwyr Allanol**

Allwedd i'r casgliadau –

1. **Ar waith** – cytundeb neu gynllun gweithredu yn ei le er mwyn ymateb i'r argymhellion a gwaith wedi dechrau.
2. **Wedi ei gwblhau – gwaith parhaus** - cynllun gweithredu i ymateb i'r argymhellion yn cael ei wireddu ond gellir dadlau na wnaiff y gwaith o gyflawni'r argymhellion byth orffen am ei fod yn waith parhaus.
3. **Wedi ei gwblhau - argymhellion wedi eu gwireddu.**

**RHAN 1 – Adroddiadau lleol neu ranbarthol sy'n asesu gwaith Cyngor Gwynedd**

**1. Cyngor Gwynedd – Adolygiad o Reoli Perfformiad**
Adroddiad lleol i Wynedd gan Archwilio Cymru gyhoeddwyd yn Chwefror 2022
Dolen i'r adroddiad ar wefan Archwilio Cymru

Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad –
Awgrym 1
Mae'n rhaid i'r Cyngor sicrhau bod ganddo ystod o fesurau defnyddiol ar gyfer yr holl adrannau a swyddogaethau. Mae angen iddo roi sylw arbennig i'r canlynol:
• sicrhau bod yr holl wasanaethau, yn nodi mesurau perfformiad priodol wedi'u saernïo'n dda (SMART) sy'n adlewyrchu pwrpas y gwasanaeth;
• gwneud pwrpas y gwasanaeth a nodwyd mewn cyfarfodydd herio perfformiad yn gydnaws â'r pwrpas yn y cynlluniau gwasanaeth adrannol yng Nghynllun y Cyngor;
• ymgorffori gwybodaeth uchelgais/safon gwasanaeth/darged a thueddiadau i roi darlun clir i'r Cyngor o uchelgais y Cyngor a'i gynnydd tuag at ei gyflawni; a
• sicrhau bod trefniadau rheoli perfformiad yn ddigon ystwyth i ymateb i heriau newydd a wynebir gan wasanaethau, fel y problemau gweithlu sylweddol presennol a wynebir gan rai gwasanaethau, drwy weithredu mesurau penodol.

Awgrym 2
Mae angen i'r Cyngor wella ei adroddiadau perfformiad er mwyn cynorthwyo eglurdeb drwy:
• ehangu'r defnydd o offer gweledol fel codau lliw i alluogi'r darllenydd i ganolbwyntio'n gyflym ar y materion allweddol drwy dynnu sylw at feysydd lle mae perfformiad ar y trywydd iawn neu'n peri pryder;
• sicrhau bod adroddiadau'n gytbwys ac yn rhoi darlun cyflawn, gonest a chytbwys o'r modd y mae'r Cyngor yn perfformio sy'n amlygu lle mae angen gwella er mwyn sicrhau canlyniadau diriaethol;
• sicrhau bod dangosfwrdd (neu atodiad mesurau) cyfredol yn cael ei gynhyrchu gan bob gwasanaeth a'i gyflwyno ym mhob cyfarfod rheoli perfformiad;

• cyhoeddi adroddiad perfformiad/cerdyn sgorio corfforaethol sy'n adrodd ar bob mesur allweddol mewn un ddogfen hygyrch.

Awgrym 3
Mae angen i'r Cyngor wella'r broses o integreiddio wybodaeth perfformiad ac ariannol drwy:
• ddefnyddio'r galw gwirioneddol am wasanaethau yn hytrach na demograffeg fel y sylfaen ar gyfer gosod cyllidebau sydd yn ymateb i alw;
• cyfleu patrwm y galw gwirioneddol o'i gymharu â thybiaethau cynllunio a ddefnyddir i osod y gyllideb sy'n galluogi gwell dealltwriaeth o'r pwysau adnoddau presennol ar wasanaethau;
• cyfuno gwybodaeth am berfformiad â gwybodaeth ariannol i gyflwyno darlun cyfannol ac unedig o sefyllfa adnoddau gwasanaethau;
• cyfuno gwybodaeth perfformiad ac ariannol i rhoi sicrwydd y gellir gwireddu cynlluniau arbedion a gyflwynir dros y tymor canolig;
• sicrhau ei hun bod cyllidebau sy'n cael eu harwain gan alw yn cael eu gosod ar lefel sy'n ddigonol i roi adnoddau i'r galw presennol a wynebir gan wasanaethau; a
• phan fydd y Cyngor yn sicr bod y cyllidebau ar gyfer gwasanaethau allweddol sy'n cael eu harwain gan alw yn cael eu gosod ar y lefel gywir, datblygu offer fel cyllid dros dro i gydnabod ac ymdopi â chynnydd yn y galw mewn cyllidebau cyfnewidiol.

Awgrym 4
Dylai'r Cyngor gryfhau ei drefniadau rheoli perfformiad drwy wneud y canlynol:
• cyfathrebu'n rheolaidd y newidiadau yn y fframwaith rheoli perfformiad gyda swyddogion ac aelodau'r Cyngor ;
• sicrhau bod swyddogion ac aelodau'r Cyngor yn cael cymorth a hyfforddiant priodol fel y gallent gyflawni eu priod swyddogaethau'n effeithiol;
• adolygu'r trefniadau cefnogi ar gyfer y fframwaith rheoli perfformiad;
• sicrhau bod yr
holl adrannau'n ymgorffori'n effeithiol y defnydd o'r gofrestr risg yn y cylch rheoli perfformiad;
• ymgorffori dull "Un Gwynedd" a fydd yn agor sianeli deialog i alluogi dysgu corfforaethol a dileu yn gyflym achosion lle mae galw yn sgil methiant mewn un adran yn cynyddu'r galw am wasanaethau mewn un arall;
• ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid i ddeall gwir achos perfformiad gwael ac ymddygiad anfwriadol; a
• chyflwyno cerrig milltir a nodi perchnogion prosiectau i dracio cynnydd a sicrhau atebolrwydd am gyflawni prosiectau sy'n ymestyn dros sawl blwyddyn.

Awgrym 5
Mae angen i'r Cyngor ymgorffori ystyriaeth o egwyddor datblygu cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn nhrefniadau cynllunio adrannau, rheoli ac adolygu perfformiad ar draws holl wasanaethau'r Cyngor.

Trywydd y drafodaeth ar yr argymhellion
Adroddiad a'r argymhellion wedi eu hystyried fel rhan o'r adolygiad o'r trefniadau herio perfformiad corfforaethol a gafodd ei arwain gan y Prif Weithredwr ar ddiwedd 2021/22. Cyflwynwyd yr argymhellion terfynol ar gyfer y drefn herio perfformiad newydd (sy'n ymgorffori mwyafrif yr argymhellion yn yr astudiaeth hon) yn ystod mis Chwefror 2022.

Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella
Mae'r drefn herio a chefnogi perfformiad newydd wedi ei gweithredu ers y cylch cyntaf o gyfarfodydd herio perfformiad yn 2022/23. Yn ogystal, paratowyd canllawiau ar y drefn newydd ar gyfer yr Adrannau, Aelodau Cabinet a'r Aelodau Craffu ar ddechrau 2022/23 gan eu diweddaru ar gyfer 2023/24. Yn ogystal, cynhaliwyd cyfres o sesiynau i godi ymwybyddiaeth o'r trefniadau newydd gan ddarparu cyfle i ofyn cwestiynau a chyflwyno sylwadau ar gyfer cynrychiolwyr Adrannau ac i Aelodau Cabinet.

Adolygwyd y trefniadau hyn dros y misoedd diwethaf, gan hefyd roi ystyriaeth i adroddiad gan Archwilio Cymru yn Medi 2023 sy'n cyfeirio at yr angen i ystyried rhoi amlygrwydd uwch i wybodaeth perfformiad o fewn y pwyllgorau craffu cyhoeddus er mwyn herio'r cynnydd a wneir a bod angen cryfhau'r wybodaeth sy'n cael ei gyflwyno i aelodau etholedig yn gyffredinol am berfformiad. O ganlyniad, bydd trefn newydd adrodd ar berfformiad yn cael ei chyflwyno ym mis Mai 2025 lle bydd adroddiadau perfformiad yn cael eu cyflwyno yn uniongyrchol i Bwyllgorau Craffu yn hytrach na'r Cabinet. Mae bwriad hefyd i fod yn cyhoeddi neu rannu gwybodaeth am berfformiad yn ehangach, gan gynnwys cyhoeddi yr holl fesurau perfformiad.

Casgliad
Wedi ei gwblhau – gwaith parhaus.

**2. Trefniadau ar gyfer ymateb i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 Cyngor Gwynedd**

Adroddiad lleol i Wynedd gan Archwilio Cymru gyhoeddwyd Tachwedd 2022
Dolen i'r adroddiad ar wefan Archwilio Cymru

Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad sydd yn parhau i fod angen sylw:

i) Diweddariad ar recriwtio'r holl aelodau lleyg angenrheidiol.
ii) Trefniadau darparu hyfforddiant i aelodau'r Pwyllgor.
iii) Ar lefel rhanbarthol Gogledd Cymru, cadarnhau'r trefniadau craffu, pwerau benthyg a statws TAW y Cyd-bwyllgor Corfforedig

Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella:

i) Mae'r her o adnabod unigolion i ymgymryd a'r rôl aelodau lleyg ar y Pwyllgor yn golygu fod angen ail ymweld a'r dulliau hysbysu a chynnwys cyfuniad o'r hysbyseb traddodiadol,

canfasio aelodau a sefydliadau ynghyd a'r wefan i gael y maen i'r wal. Mae'r gwaith yma ar y gweill.

ii) Cynhaliwyd gweithdy ar gyfer aelodau'r pwyllgor ar y 3ydd o Ebrill, 2024.

iii) Gellir cadarnhau fod pwerau benthyg a statws TAW y Cyd Bwyllgor Craffu wedi eu datrys drwy reoliadau ddaeth yn weithredol ar y 1af o Ebrill 2023. Mae cynllun ar sail adroddiad safonol a rheolau sefydlog drafft i sefydlu Cyd Bwyllgor Craffu yn y broses o gael ei gyflwyno i gynghorau y rhanbarth. Mae'r union amserlen yn ddibynnol ar gylch penderfynu y cynghorau. Rhaid cydnabod hefyd fod hyn yn ddarostyngedig i gyd syniad Cynghorau Llawn pob Cyngor. Cefnogwyd y bwriad gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ym Mis Rhagfyr a disgwylir penderfyniadau gan y cynghorau erbyn diwedd y flwyddyn fwrdeistrefol.

Casgliad:
Ar waith

Amserlen:
Yn anorfod mae'r agwedd craffu yn golygu adeiladu consensws rhwng 6 Cyngor y gogledd ar gyfeiriad a symud y mater drwy eu trefniadau penderfynu unigol. O ganlyniad mae'r amserlen yn heriol ac wedi llithro ond mae cynnydd diweddar y rhoi hyder y bydd y sefyllfa wedi ei datrys yn fuan yn 25/26.

**3. Adolygiad o effeithiolrwydd craffu – Cyngor Gwynedd**
Adroddiad Archwilio Cymru. Medi 2023 (Hydref a nodir ar y Saesneg)
Dolen i'r adroddiad ar wefan Archwilio Cymru

Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad:

**A1 – Llunio rhaglen craffu**
Dylai blaenraglen y Cabinet a Chynllun y Cyngor gael rhagor o ddylanwad ar flaenraglen y pwyllgorau craffu cyhoeddus fel bod allbwn craffu yn bwydo i mewn i benderfyniadau a gynllunnir gan y Cabinet.

**A2 – Amlygu gwybodaeth perfformiad**
Dylid rhoi amlygrwydd uwch i wybodaeth perfformiad o fewn y pwyllgorau craffu cyhoeddus er mwyn herio'r cynnydd a wneir.

**A3 – Hyfforddiant**
Dylid defnyddio darparwyr priodol boed yn fewnol neu yn allanol i gyflenwi hyfforddiant mewn meysydd arbenigol fel sgiliau cwestiynu, materion ariannol a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, er mwyn cynyddu hyder aelodau i herio yn effeithiol.

**A4 – Cryfhau ystyriaeth ddeddfwriaethol**
Dylid adolygu prosesau craffu i sicrhau bod pwyslais priodol ar ddeddfwriaeth gan gynnwys Deddf Cydraddoldeb 2010 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â hwy.

**A5 - Ymchwiliadau craffu**
Dylid ystyried cynnal nifer uwch o ymchwiliadau gan wahodd nifer gyfyngedig o aelodau i ymuno'r grŵp tasg a gorffen o blith pob pwyllgor craffu neu'r holl aelodau, fel bod y sawl sydd â diddordeb yn y maes yn cael cyfle i gymryd rhan a chynnal brwdfrydedd. Bydd hyn yn gyfrwng i ymgysylltu efo'r cyhoedd yn ogystal.

**A6 - Olrhain effaith craffu**
Dylid cryfhau'r broses o adrodd ar benderfyniadau pwyllgorau craffu a mabwysiadu trefn olrhain ffurfiol, er mwyn cael y gwerth am arian gorau ac amlygu'n gyhoeddus cyfraniad y gyfundrefn craffu i drefniadau llywodraethu'r Cyngor.

<u>Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella:</u>

**A1**
Rydym wedi:

- Amlygu materion Cynllun y Cyngor wrth flaenoriaethu materion i'w craffu yn y gweithdai blynyddol eto eleni a thynnu sylw penodol at hynny.
- Amlygu materion Cynllun y Cyngor/ sy'n cael eu blaen graffu ymhellach trwy eu gwneud yn fwy gweledol – yn yr adroddiad blynyddol, ar y flaen raglen craffu, wrth ystyried y strategaeth gwestiynu yn y cyfarfodydd anffurfiol, ac amlygir gan y Cadeirydd ar ddechrau pob eitem craffu. Mae hyn wedi ei groesawu gan y Cynghorwyr.
- Cymryd camau i gryfhau blaen raglen y Cabinet gan adnabod eitemau am gyfnod hwy na chwe mis.
- Addasu templed adrodd i'r Cabinet er mwyn amlygu materion sydd wedi eu blaen graffu gan nodi'r angen i'r Aelod Cabinet adrodd ar sylwadau'r pwyllgor craffu perthnasol ers Medi 2023.
- Rhannu cerrig milltir blynyddol cyflawni Cynllun y Cyngor gyda'r Aelodau craffu perthnasol.

**A2**
Rydym wedi:

- Adnabod rôl i'r cyfarwyddwyr corfforaethol gefnogi'r craffwyr i adnabod materion i'w craffu ers Medi 2023.
- Cychwyn adnabod cryfderau a gwendidau ein trefniadau cyfredol - cafwyd sylwadau yn y gweithdai craffu ac mae adolygiad mewnol wedi ei gynnal.
- Datblygu trefniadau ar gyfer adrodd perfformiad i'r Pwyllgorau Craffu, gan gychwyn adrodd i'r pwyllgorau yn 2025/26 ar ôl cynnal hyfforddiant i'r aelodau Craffu a'r Aelodau Cabinet.

**A3**

Rydym wedi:

- Cynnal hyfforddiant i'r holl Gynghorwyr ar ymarfer da wrth graffu ym mis Mawrth 2024. Rhaid nodi fod darganfod darparwyr allanol sy'n siarad Cymraeg yn her.
- Addasu ein trefniadau gweithredu mewnol yn sgil yr hyfforddiant a sylwadau a godwyd o'r gweithdai craffu er mwyn miniogi ein strategaeth gwestiynu, gwella argymhellion y craffwyr ac adnabod ac asesu effaith y craffu.
- Cynnal hyfforddiant i Gadeiryddion a darpar Gadeiryddion ym mis Mai 2024 a chynnal hyfforddiant i Aelodau'r Fforwm Craffu (cadeiryddion ac is-gadeiryddion pwyllgorau craffu) pan fo unrhyw newid i'r aelodaeth.
- Atgoffa'r Cynghorwyr eto eleni am faterion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn y gweithdai craffu blynyddol.

**A4**

Rydym wedi:

- Atgoffa'r Cynghorwyr eto eleni am faterion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf Cydraddoldeb 2010 yn y gweithdai craffu blynyddol.
- Atgoffa'r holl Gynghorwyr craffu o'r pwysigrwydd i fynychu'r gweithdai craffu blynyddol a chymryd rhan yn yr hyfforddiant sydd ar gael.
- Adnabod rôl benodol i'r Cadeiryddion a'r is-gadeiryddion craffu i hyrwyddo'r gweithdai craffu ac annog eu aelodau i fynychu pob gweithdy a phob cyfarfod.
- Atgoffa'r holl Gynghorwyr o'u dyletswydd i ymgymryd a'r hyfforddiant craidd, un o'r meysydd craidd yw 'Cydraddoldeb', sy'n amlwg yn cyfeirio at y ddeddf. Mae hyn yn cael sylw parhaus gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth.
- Datblygu trefniadau ar gyfer cynnal cyfarfodydd anffurfiol ar wahân i'r pwyllgor ei hun er mwyn rhoi ffocws ar y strategaeth gwestiynu gan ystyried materion y Deddfau perthnasol.

**A5**

Rydym wedi:

- Ail sefydlu rhaglen ymchwiliadau (a ddaeth i ben dros gyfnod covid am resymau amlwg), o fewn yr adnoddau sydd ar gael. Mae un ymchwiliad wedi adrodd eisoes yn ogystal ag un grŵp tasg a gorffen, ac un ymchwiliad arall ar y gweill.
- Teg yw nodi fod yr ymchwiliadau a grwpiau tasg a gorffen yn cymryd dipyn o amser Cynghorwyr, ac mae'n gallu bod yn sialens sicrhau fod nifer digonol o aelodau ar gael, yn ogystal a swyddogion i gefnogi'r broses.
- Cadw at ein trefniadau cyfredol o gynnig i aelodau'r pwyllgorau craffu fel man cyntaf cyn ymestyn i'r holl aelodau.

**A6**

Rydym wedi:

- Cynnal hyfforddiant 'ymarfer da wrth graffu' oedd yn cyfeirio at yr angen am strategaeth gwestiynu a chreu argymhellion clir i'r holl aelodau.
- Addasu ein trefniadau gweithredu mewnol yn sgil yr hyfforddiant a sylwadau a godwyd o'r gweithdai craffu er mwyn miniogi ein strategaeth gwestiynu, gwella argymhellion y craffwyr ac adnabod ac asesu effaith y craffu trwy gynnal cyfarfodydd anffurfiol ar ddiwrnod gwahanol i'r pwyllgor a rhoi ffocws o ddifri ar y gwaith. Mae

gan aelodau’r Fforwm Craffu rôl allweddol i sicrhau fod y ffocws yn parhau yn ystod cyfarfodydd y pwyllgor ac i arwain yr aelodau tuag at argymhellion cryf, clir a chadarn.

- Yn nhymor yr Hydref, 2024 datblygwyd trefniadau i alluogi Cadeiryddion Craffu gyflwyno materion sydd wedi eu blaen-graffu i gyfarfodydd y Cabinet, gan sicrhau rôl glir i bawb.
- Sefydlu trefn dracio ffurfiol sy’n rhoi diweddariad ar benderfyniadau/argymhellion fesul Pwyllgor Craffu. Rhannwyd gwybodaeth am y cyfnod Mai 2022 tan ddiwedd Tachwedd 2024 gyda’r holl aelodau craffu, a bydd yn cael ei anfon atynt bob 6 mis o hyn allan. Bwriedir defnyddio’r wybodaeth i amlygu effaith craffu yn gyhoeddus yn Adroddiad Blynyddol Craffu.

<u>Casgliad:</u>
Wedi ei gwblhau – gwaith parhaus.

**4. <u>Cyngor Gwynedd – Adolygiad Strategaeth Ddigidol</u>**
Adroddiad Archwilio Cymru. Rhagfyr 2023
<u>Dolen i’r adroddiad ar wefan Archwilio Cymru</u>

<u>Cynigion Gwella yn codi o’r adroddiad:</u>

**A1 - Cryfhau'r sylfaen dystiolaeth**
Er mwyn helpu i sicrhau bod ei strategaeth ddigidol nesaf yn wybodus a bod ei adnoddau'n cael eu targedu'n effeithiol, wrth ddatblygu ei strategaeth, dylai'r Cyngor ddefnyddio tystiolaeth o ystod eang o ffynonellau, gan gynnwys;

- cynnwys rhanddeiliaid sydd â diddordeb yn y strategaeth ddigidol yn ogystal â thynnu ar farn rhanddeiliaid o ffynonellau presennol
- amcanion a strategaethau cyrff cyhoeddus eraill, a nodi cyfleoedd i gydweithio
- dadansoddiad o dueddiadau'r presennol a'r dyfodol (gweler ein meini prawf archwilio ar gyfer C.1.1 a Ch1.2 yn Atodiad 1 i gael rhai enghreifftiau o'r hyn y gallai hyn gynnwys)

**A2 - Nodi goblygiadau adnoddau**
Helpu i sicrhau bod Mae ei strategaeth ddigidol nesaf yn gyflawnadwy, dylai'r Cyngor nodi'r goblygiadau adnoddau tymor byr a hirdymor o'i gyflawni ynghyd ag unrhyw arbedion effeithlonrwydd a fwriadwyd.

**A3 - Trefniadau ar gyfer monitro gwerth am arian**
Er mwyn gallu monitro gwerth am arian ei strategaeth ddigidol nesaf, dylai'r Cyngor gryfhau ei drefniadau ar gyfer monitro ei gynnydd a'i effaith dros y tymor byr, canolig a'r tymor hwy.

Trywydd y drafodaeth ar yr argymhellion:

**A1**
Mae'r Cynllun Digidol wedi ei rannu'n helaeth ar gyfer sylwadau ynghyd â chynigion i gydweithio, gan gynnwys oll o Gynghorau Cymru, swyddfa ddigidol WLGA, CDPS, Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, a Phrifysgol Bangor.

Mae ymgysylltu helaeth wedi digwydd yn fewnol yn y Cyngor, gan gynnwys cynnal gweithdy blaenoriaethu a chynnwys newydd gyda'r Tîm Rheoli Corfforaethol, Penaethiaid Cynorthwyol a'r Rhwydwaith Rheolwyr.

Aethpwyd â'r Cynllun Digidol gerbron y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar 14.09.2023 i geisio barn cyn ei gyflwyno'n derfynol i'r Cabinet. Cafwyd croeso gwresog i'r Cynllun a sylwadau dilys a defnyddiol a fwydwyd yn ôl i'r Cynllun cyn iddo barhau ar ei daith i'r Cabinet.

Defnyddiwyd ffynonellau niferus ar gyfer paratoi'r Cynllun Digidol a gymeradwywyd gan Gabinet y Cyngor ar Dachwedd 7fed, 2023, gan gynnwys datblygiadau'n y maes digidol, tueddiadau gwasanaethau, goblygiadau amgylcheddol, darpar fuddsoddiadau ar isadeiledd gan Uchelgais Gogledd Cymru, a strategaethau digidol sefydliadau eraill, gan gynnwys Llywodraeth Cymru.

Ar ôl ei gyflwyno i'r Cabinet ar Dachwedd 7fed, 2023, fe fydd adolygiad parhaus o'r Cynllun gyda newidiadau mewn technoleg, hinsawdd ariannol neu anghenion ein gwasanaethau yn cael eu hystyried, a all arwain at gyflwyno newidiadau, fel y cadarnheir yn sylwadau'r Prif Swyddog Cyllid:

"Bydd y Cynllun Digidol dan adolygiad parhaus ac rwyf yn fodlon na fyddai mabwysiadu'r Cynllun yn rhagfarnu'r drefn bidio. Petai prinder cyllid yn golygu fod rhai o'r bidiau yn aflwyddiannus byddwn yn ail flaenoriaethu cynnwys y Cynllun yn unol â'r angen."

**A2**
Mae dadansoddiad llawn wedi'i gyflawni ar gyfer yr adnoddau sydd eu hangen i wireddu gweledigaeth y Cynllun Digidol, ynghyd â nodi cyfleoedd am arbedion effeithlonrwydd. Cyflwynwyd y prosiectau a'r cais am gefnogaeth adnoddau ychwanegol i'r drefn bidiau corfforaethol, yn unol â'r cynlluniau a nodwyd yn yr adroddiad oedd yn cefnogi cyflwyno'r Cynllun Digidol ar gyfer ei gymeradwyaeth i Gabinet y Cyngor ar Dachwedd 7fed, 2023:

"Mae gwaith manwl wedi'i wneud yng nghyswllt costau cychwynnol rhoi'r Cynllun ar waith. Mae'r costau adnabuwyd yn gyfuniad o rai cyfalaf a refeniw un-tro, a refeniw parhaol. Mae cronfa benodol wedi'i chlustnodi ers peth amser ar gyfer costau un-tro, a bydd modd gwireddu sawl elfen o'r prosiectau dan sylw trwy ddefnyddio'r adnodd ariannol hwn. Bydd angen, fodd bynnag, rhoi ystyriaeth i'r oblygiadau refeniw parhaol o fewn y drefn bidiau corfforaethol yn flynyddol."

Mae sylw pellach y Prif Swyddog Cyllid yn nodi:

“Mae pob prosiect unigol yn y Cynllun Digidol wedi cael ei gostio, ac fel nodir bod y costau hynny yn gyfuniad o refeniw parhaol, refeniw un-tro a chyfalaf. Mae adnoddau un-tro wedi eu clustnodi ar gyfer y Cynllun Digidol ar ffurf cronfa, a gallaf gadarnhau fod bidiau am refeniw parhaol wedi eu cyflwyno yn unol â threfniadau arferol y Cyngor.”

**A3**
Mae trefniadau monitro cynnydd wedi’u nodi’n yr adroddiad a gyflwynwyd i Gabinet y Cyngor ar Dachwedd 7fed, 2023:

“Mae’r trefniadau llywodraethu ar gyfer gwireddu a monitro’r rhaglen waith fel a ganlyn. Yr Adran Technoleg Gwybodaeth a Chyllid sy’n gyfrifol am wireddu’r Cynllun Digidol yng Nghynllun y Cyngor, a Phennaeth Cynorthwyol yr adran honno yw’r Rheolwr Prosiect. Mae’r Bwrdd Trawsnewid Digidol wedi’i ffurfio i gadw trosolwg ar gynnydd y rhaglen waith a chynnig her a chefnogaeth, a hynny’n ychwanegol i’r trefniadau herio a chefnogi perfformiad arferol – hyn i gydnabod pa mor allweddol yw datblygiad yn y maes digidol i’n gallu fel Cyngor i ddarparu gwasanaethau ar gyfer y dyfodol.”

Mae cyfeirio pellach at y trefniadau monitro i’w canfod yng nghorff y Cynllun Digidol, gyda’r Cyfarwyddwr Corfforaethol yn nodi:

“Bydd adolygiad blynyddol cynhwysfawr ynghyd ag adroddiadau cynnydd rheolaidd yn ein galluogi i fonitro cyfraniad y prosiectau unigol i'r weledigaeth ehangach gan dderbyn, o ystyried y datblygiadau cyson mewn technoleg ddigidol, y bydd angen peth addasu ar y blaenoriaethau, hyd yn oed o fewn oes y Cynllun.”

Cyfyd cofnod llawn o’r drefn llywodraethu ym mhennod olaf y Cynllun sy’n dwyn y pennawd “Trefniadau Llywodraethiant”.

<u>Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella:</u>

A1
Cwblhawyd yn barod ar gyfer cyflwyno’r Cynllun Digidol gwreiddiol (07.11.2023)
Tasg barhaus ar gyfer cadw’r Cynllun yn gyfredol

A2
Wedi ei gwblhau yn barod (07.11.2023)

A3
Wedi ei gwblhau yn barod (07.11.2023)

<u>Casgliad:</u>
Wedi ei gwblhau - argymhellion wedi eu gwireddu.

## Adroddiadau ychwanegol ers Chwefror 2024

**5.** **<u>Defnyddio gwybodaeth am berfformiad: persbectif a chanlyniadau defnyddwyr gwasanaeth – Cyngor Gwynedd</u>**
Adroddiad Archwilio Cymru. Ionawr 2024
Dolen i'r adroddiad ar wefan Archwilio Cymru

<u>Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad sydd angen diweddariad:</u>

**Gwybodaeth am bersbectif y defnyddiwr gwasanaeth**
A1 Dylai'r Cyngor gryfhau ei drefniadau i alluogi uwch arweinwyr i ddeall persbectif y defnyddiwr gwasanaeth trwy:

- rannu ei wybodaeth perfformiad am bersbectif defnyddwyr gwasanaeth gydag amrywiaeth ehangach o uwch arweinwyr i sicrhau bod ei werth cymaint â phosibl o ystyried themâu trawsbynciol ei amcanion llesiant; a
- sicrhau ei hun bod yr wybodaeth am bersbectif defnyddwyr gwasanaeth yn deillio o'r amrywiaeth o ddefnyddwyr gwasanaeth gan gynnwys grwpiau sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig.

**Gwybodaeth am ganlyniadau**
A2 Dylai'r Cyngor gryfhau'r wybodaeth a ddarperir i uwch arweinwyr i'w helpu i werthuso a yw'r Cyngor yn cyflawni ei amcanion a'r canlyniadau a fwriedir.

<u>Trywydd y drafodaeth ar yr argymhellion</u>

Adroddiad a'r argymhellion wedi eu trafod fel rhan o'r gwaith o adolygu ein trefniadau adrodd ar berfformiad dros y misoedd diwethaf.

**A1**
Trefn adrodd ar berfformiad newydd yn cael ei chyflwyno ym mis Mai 2025 lle bydd adroddiadau perfformiad yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgorau Craffu yn hytrach na cyfarfodydd y Cabinet. Bydd hyn yn golygu bod gwybodaeth am berfformiad yn cael ei rannu gyda amrywiaeth ehangach o uwch arweinwyr.

Rydym eisoes yn edrych i wella'r wybodaeth sydd gennym trwy gynyddu'r amrywiaeth o unigolion hefo nodweddion gwarchodedig neu grwpiau sy'n eu cynrychioli o fewn ein Panel Trigolion.

Grŵp ymgysylltu (sy'n cynnwys cynrychiolwyr o bob Adran) wedi ei sefydlu a gwaith wedi digwydd trwy'r grŵp i godi ymwybyddiaeth ymysg rheolwyr o'r angen i gasglu barn unigolion hefo nodweddion gwarchodedig. Mae bwriad hefyd i gymryd rhan yn yr Arolwg Preswylwyr Cenedlaethol (a gydlynir gan Data Cymru) er mwyn gwella'r wybodaeth sydd gennym ar farn preswylwyr am ein holl wasanaethau a pherfformiad.

**A2**
Cerrig milltir wedi eu cadarnhau ar gyfer prosiectau Cynllun y Cyngor ac wedi eu rhannu hefo'r Aelodau a Swyddogion perthnasol er mwyn eu galluogi i werthuso a ydym yn cyflawni'r amcanion a'r canlyniadau a fwriedir. Cynnydd yn cael ei fonitro yn gyson mewn cyfarfodydd herio a chefnogi perfformiad a thrwy adroddiadau trosolwg.

Gwaith yn mynd rhagddo i edrych ar gymharu mesurau a data rheolaethol hefo cymheiriaid. Byddai hyn yn ein galluogi i adnabod meysydd lle mae anghysondebau o ran perfformiad.

Casgliad
Wedi ei gwblhau – gwaith parhaus

**6 Adroddiad ar wasanaethau addysg yng Nghyngor Gwynedd**
Estyn, Mehefin 2023
Dolen i'r Adroddiad ar wefan Estyn

Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad:

**A1**
Sicrhau bod arweinwyr yn gweithredu yn strategol ar bob agwedd o'u gwaith a bod ganddynt oruchwyliaeth addas ac ystyriaeth lawn o risg ynghylch agweddau pwysig sydd wedi codi yn ystod yr arolygiad.

**A2**
Gwella trefniadau monitro, gwerthuso a hyrwyddo presenoldeb disgyblion.

**A3**
Cryfhau'r ddarpariaeth i ymateb i anghenion disgyblion â chanddynt anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol a sicrhau trefniadau monitro a gwella ansawdd y ddarpariaeth honno.

Trywydd y drafodaeth ar yr argymhellion

**A1**
Mae'r Adran Addysg eisoes yn y broses o lunio Strategaeth Addysg 10 mlynedd ar gyfer Gwynedd. Mae'r Strategaeth Addysg wedi ei adnabod bellach fel blaenoriaeth yng Nghynllun y Cyngor o Ebrill 2024 ymlaen, gyda rhaglen waith glir a cherrig milltir o safbwynt mireinio cynnwys y Strategaeth Addysg Ddrafft, ymgysylltu ar y blaenoriaethau gyda rhanddeiliaid allweddol, adnabod amserlen ar gyfer cynnal ymgynghoriad cyhoeddus, ynghyd â'r amserlen ar gyfer mynd gerbron y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi a'r Cabinet.

Mae gwaith eisoes yn digwydd yn sgil penodiad y Pennaeth Addysg i osod cyfeiriad a blaenoriaethau clir ar gyfer yr Adran Addysg, gan sicrhau trefniadau priodol o amgylch

adnabod swyddogion cyfrifol, llunio cerrig milltir, amserlen ac adnabod risgiau ynghlwm â'r blaenoriaethau hynny, fel rhan o gynllun gwella'r Adran a'r cylch hunanwerthuso.

**A2**
Mae gwaith eisoes wedi cychwyn i ymateb i heriau presenoldeb drwy wella systemau adrodd a gwella ansawdd y data, ynghyd â rhannu negeseuon gydag ysgolion, ac mae'r gwaith hwnnw wedi cychwyn dwyn ffrwyth ddiwedd Tymor yr Hydref gyda chyfraddau presenoldeb wedi gwella, er bod peth ffordd i fynd i'r cyfraddau gynyddu i'r hyn oeddent cyn Covid-19. Mae'r broses o lunio cynllun gweithredu mewn ymateb i'r argymhelliad wedi cychwyn, sydd yn cynnwys yr elfennau canlynol:

- Gwella systemau adrodd ar bresenoldeb. 31 Ionawr 2024 31 Mawrth 2024 Rheolwr Cynhwysiad / Rheolwr Uned Ddata
- Adnabod absenoldebau parhaus yn gynnar.
- Trafod a gweithredu gydag ysgolion penodol lle mae heriau presenoldeb yn fwy amlwg.
- Ychwanegu cynhwysedd i'r Tîm Lles.
- Llunio a chynnal ymgyrch am bwysigrwydd presenoldeb.

**A3**
Arfarniad allanol o ddarpariaethau cynhwysiad yr Awdurdod ar y cyd gyda rhanddeiliaid wedi ei gomisiynu, ac adroddiad drafft ynghyd ag argymhellion wedi eu cyflwyno i'r Adran. Trafod canfyddiadau ac argymhellion yr adroddiad a gomisiynwyd gyda rhanddeiliaid gan lunio cynllun gweithredu mewn ymateb i'r argymhellion Rhoi'r cynllun gweithredu ar waith a monitro'r canlyniadau.

<u>Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella</u>

**A1**
Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Adran wedi bod yn gweithio ar lunio Strategaeth Addysg 10 mlynedd i Wynedd. Bu drafft cychwynnol ohono gerbron y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar 14 Medi 2023, ynghyd â thrafodaethau yn y Grwpiau Strategol Penaethiaid, a thrafodaethau mwy diweddar gyda phenaethiaid mewn sesiynau anffurfiol. Byddwn yn parhau gyda'r ymgysylltu a'r trafodaethau anffurfiol ar gynnwys y Strategaeth yn nhymor y Gwanwyn 2025, cyn ymgynghori'n gyhoeddus arno a'i gyflwyno gerbron y Cabinet.

**A2**
Mae'r cynlluniau ar gyfer Presenoldeb yn parhau ar waith, ac yn parhau i ddatblygu. Fel a nodwyd yn yr adroddiad diwethaf, mae'r data sydd ar gael wedi gwella o ran yr ystod data sydd ar gael i ddadansoddi tueddiadau presenoldeb. Mae hyn yn gwella gallu'r Awdurdod i dargedu ymyrraeth. Mae'r gwaith hwnnw wedi cychwyn dwyn ffrwyth ddiwedd Tymor yr Hydref gyda chyfraddau presenoldeb wedi gwella, er bod peth ffordd i fynd i'r cyfraddau gynyddu i'r hyn oeddent cyn Covid-19. Mae'r broses o lunio cynllun gweithredu mewn ymateb i'r argymhelliad. Mae'r ymgyrch presenoldeb wedi cychwyn , gyda rhagor o ddeunyddiau gweledol ar gael i ysgolion eu defnyddio ar y gweill yn fuan. Mae pob Ysgol Uwchradd wedi derbyn ymweliad gan y Tim Lles i fapio eu prosesau a'u dulliau targedu presenoldeb. Mae holiadur hefyd wedi ei yrru allan i pob ysgol er mwyn adnabod ble mae angen targedu a datblygu ymhellach.

Mae arian grant yn dod gan Llywodraeth Cymru ar gyfer cynyddu presenoldeb trwy grant i'r tim Lles ynghyd a grant Ysgolion Cymunedol. Mae hyn yn cael ei ddefnyddio i gynyddu capasiti o fewn y tim Lles, a chyflogi gweithwyr teulu ar gyfer rhoi ymyrraeth ar gyfer rhieni.

**A3**
Yn dilyn derbyn argymhellion Arfarniad Allanol o ddarpariaethau cynhwysiad, fe sefydlwyd Bwrdd Prosiect Cynhwysiad yn cynnwys Swyddogion Addysg/ADY a Ch, Gwasanaeth Plant a gwasanaeth Ieuenctid, Penaethiaid. Bu i aelodau o'r Bwrdd gael cyfle i ymweld a darpariaethau mewn ALl eraill er mwyn adnabod arfer dda, cynnal gweithdy o wasanaethau sydd yn cefnogi teuluoedd, edrych ar opsiynau posib ac yn y blaen. Erbyn hyn mae'r Bwrdd wedi cyrraedd y pwynt o ddod ag opsiynau terfynol a fydd yn cael eu cyflwyno i'r Tim Arweinyddiaeth (ar Ionawr 14, 2025). Mae'r opsiynau yn gweithio tuag at Medi 2025 ar gyfer unrhyw newid i'r ddarpariaeth.

<u>Casgliad</u>
Wedi ei gwblhau – gwaith parhaus

**7** **<u>Arolygiad o wasanaethau troseddau ieuenctid Gwynedd ac Ynys Môn</u>**
Arolygiaeth Prawf, Mawrth 2024
Dolen i'r Adroddiad

<u>Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad:</u>

Ceir 7 argymhelliad yn yr adroddiad:

Dylai Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Gwynedd ac Ynys Môn wneud y canlynol:

1. gwella ansawdd y gwaith asesu a chynllunio i gadw plant yn ddiogel a rheoli'r risg o niwed y maent yn ei achosi i eraill

2. sicrhau bod goruchwyliaeth reoli yn gyson effeithiol wrth adolygu gweithgarwch Asset Plus a chynllunio wrth gefn, er mwyn sicrhau bod ymarferwyr yn glir ynghylch yr hyn y mae angen iddynt ei wella

3. rhoi arweiniad cynhwysfawr i ymarferwyr sy'n ei helpu i gwblhau gwaith asesu a chynllunio effeithiol ar ddatrysiadau y tu allan i'r llys

4. gwella gwybodaeth a dealltwriaeth ymarferwyr i nodi pryd mae plant yn cael eu hecsbloetio er mwyn sicrhau bod camau amserol yn cael eu cymryd i gadw plant yn ddiogel.

Dylai Bwrdd Rheoli Strategol Cyfiawnder Ieuenctid Gwynedd ac Ynys Môn

wneud y canlynol:

5. sicrhau presenoldeb cyson uwch arweinwyr addysg ac iechyd yn y bwrdd rheoli er mwyn sicrhau canlyniadau addysg ac iechyd cadarnhaol i bob plentyn

6. mynd i'r afael â'r datgysylltiad rhwng y bwrdd rheoli strategol ac ymarferwyr rheng flaen

7. mynd i'r afael â'r bwlch mewn darpariaeth lleferydd, iaith a chyfathrebu i blant a sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu sy'n asesu ac yn ymateb i anghenion cyfathrebu plant.

<u>Trywydd y drafodaeth ar yr argymhellion</u>

Lluniwyd Cynllun Gwella manwl i ddelio gyda’r argymhellion, a rhannwyd hwn gyda’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar y 5ed o Fedi, 2024. Mae’r Cynllun Gwella wedi cael ei lunio ar y cyd gydag aelodau’r Bwrdd Rheoli, y Grŵp Rheoli Gweithredol a staff y Gwasanaeth yn dilyn cyfarfod a gynhaliwyd er mwyn adolygu’r adroddiad drafft a chychwyn ar y broses o lunio ymateb, fel bod y berchnogaeth i weithredu’r Cynllun Gwella yn cael ei dderbyn drwy’r Gwasanaeth a gyda’n partneriaid.

<u>Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella</u>

Mae cynllun gweithredu i ymateb i'r argymhellion yn cael ei weithredu.

- Bydd y Cynllun Gwella presennol yn rhan o Gynllun Cyfiawnder Ieuenctid Blynyddol y gwasanaeth o 2025-26.
- Mae rhai o'r gwelliannau a amlinellir yn y cynllun yn gofyn am gynnydd ar lefel genedlaethol/partneriaeth ac mae angen newid polisi.

Adolygodd y Bwrdd Rheoli Cyfiawnder Ieuenctid Gynllun Gwella HMIP Gwynedd Mon ar **11 Rhagfyr 2024**, nododd y Bwrdd fod cynnydd sylweddol wedi'i wneud mewn;

- ***Hyfforddiant / datblygiad*** staff
- Newidiadau polisi ac ymarfer i ***Atal a Dargyfeirio***
- Cwblhau gofynion ***Adsefydlu***
- Gwelliannau ***Llywodraethu Goruchwyliaeth***

Yn ogystal â’r goruchwyliaeth leol o'r Cynllun Gwella gan y Bwrdd Rheoli Lleol, mae gan **y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid** (YJB/MOJ) ar gyfer Cymru a Lloegr rôl oruchwylio a chefnogol yn y Cynllun Gwella Arolygu, ac roeddent yn bresennol ar 11 Rhagfyr ac yn fodlon bod cynnydd da yn cael ei wneud gyda'r Cynllun.

<u>Casgliad:</u>

Wedi ei gwblhau – gwaith parhaus

**RHAN 2 – adroddiadau cenedlaethol neu gyffredinol sy'n berthnasol i Lywodraeth Leol**

1. **<u>Darparu Gwasanaeth Llywodraeth Lleol i Gymunedau Gwledig: Trosglwyddo Asedau Cymunedol</u>**
   Adroddiad Cenedlaethol gan Archwilio Cymru a gyhoeddwyd Rhagfyr 2018
   <u>Dolen i'r adroddiad ar wefan Archwilio Cymru</u>

<u>Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad</u> –

1. Mae angen i awdurdodau lleol wneud mwy i sicrhau bod y broses o Drosglwyddo Asedau Cymunedol yn symlach ac yn fwy deniadol, helpu i feithrin gallu Cynghorau Cymuned a Thref, rhoi rhagor o arweiniad iddynt o ran sicrhau cyllid, a gofalu eu bod yn cefnogi modelau datblygu cymunedol eraill, er enghraifft mentrau cymdeithasol sy'n cefnogi gwerth cymdeithasol a chyfranogiad dinasyddion. At hynny, rydym yn argymell bod awdurdodau lleol yn monitro ac yn cyhoeddi nifer yr achosion o Drosglwyddo Asedau Cymunedol ac yn mesur effaith gymdeithasol trosglwyddiadau o'r fath.

2. Mae gan awdurdodau lleol gyfle sylweddol i ddarparu gwell help a chymorth, a hynny mewn modd mwy amlwg, cyn, yn ystod, ac ar ôl y broses o drosglwyddo asedau cymunedol. Down i'r casgliad bod yna gryn le i wella'r gwaith cynllunio busnes a pharatoi ar gyfer trosglwyddo asedau cymunedol, yn ogystal â'r ôl-ofal. Rydym yn argymell bod awdurdodau lleol yn gwneud y canlynol:
   - nodi rôl trosglwyddo asedau cymunedol wrth sefydlu canolfannau cymunedol, rhwydweithiau arbenigedd a chlystyrau o wasanaethau cynghori ac atal;
   - gweithio gyda chynghorau tref a chymuned i feithrin eu gallu i ymgymryd â rhagor o gynlluniau Trosglwyddo Asedau Cymunedol;
   - nodi'r asedau sy'n addas i gael eu trosglwyddo, ac egluro'r hyn y mae angen i'r awdurdod ei wneud i'w galluogi i gael eu trosglwyddo;
   - sicrhau bod eu polisïau o ran Trosglwyddo Asedau Cymunedol yn cwmpasu'r canlynol yn ddigonol: ôl-ofal, cefnogaeth hirdymor, cymorth ôl-drosglwyddo, cyfeirio at fynediad at gyllid, a rhannu'r dysgu ynghylch yr hyn sy'n gweithio'n dda; a
   - cefnogi arweinyddiaeth yn y gymuned trwy ddatblygu rhwydweithiau o ddiddordeb a hyfforddiant, ac annog unigolion i wirfoddoli.

<u>Trywydd y drafodaeth ar yr argymhellion</u>
Mae Cyngor Gwynedd wedi creu Cynllun Adfywio newydd ar gyfer y sir. Mae'r sir wedi ei rhannu i 13 ardal ac mae cynllun ardal lleol wedi ei baratoi ar gyfer pob un o'r 13 ardal. Mae gwaith ymgynghori dwys wedi digwydd gyda grwpiau cymunedol gweithredol a chynghorau cymuned a thref er mwyn canfod barn ar y themâu sy'n bwysig i gymunedau a sut gellir adeiladu ar fodel o gydweithio er mwyn gweithredu ar y blaenoriaethau hynny. Maent hefyd yn cynnwys plethiant o nifer o wahanol ymgynghoriadau trawsadrannol.

Erbyn hyn mae gennym gynllun ardal ar gyfer bob un o'r 13 ardal, gyda cynllun gweithredu yn amlinellu cynlluniau sy'n digwydd yn lleol trwy weithgarwch cymunedol. Rydym wedi

sefydlu grŵp trawsadrannol er mwyn rhannu'r cynlluniau gyda adrannau eraill y Cyngor er mwyn sicrhau bod y cynlluniau gweithredu yn cynnwys holl brosiectau y Cyngor yn yr ardaloedd. Yn ystod Mawrth-Ebrill 2024 bu i ni gyflwyno'r cynlluniau i'r cyhoedd mewn cyfres o weithdai yn lleol er mwyn adnabod partneriaid yn lleol ac i weld os oedd angen sefydlu partneriaethau lleol er mwyn gweithredu cynlluniau. Mae gwaith o sefydlu trefniadau er mwyn sicrhau deialog barhaus gyda'r cymunedau er mwyn cadw'r cynlluniau ardal yn rhai byw wedi bod yn mynd rhagddo yn ystod Hydref-Rhagfyr 2024. Yn ystod 2025 byddwn yn adeiladu ar y trefniadau yma ac yn cysylltu er mwyn trefnu ffyrdd o allu cydweithio a datblygu'r prosiectau sydd yn y cynlluniau gweithredu. Bydd hefyd yn gyfle i drafod prosiectau newydd.

Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella

Yn hanesyddol mae'r Adran Economi o fewn y Cyngor wedi gwneud llawer o waith o ran trosglwyddo asedau i Gynghorau Cymuned, Mentrau a Grwpiau Cymunedol. Rydym yn gweithio gyda sawl Cyngor Cymuned /Tref , grŵp neu fenter cymunedol i feithrin eu gallu i ymgymryd a rhagor o gynlluniau Trosglwyddo Asedau Cymunedol, gyda sawl cynllun ar y gweill ar hyn o bryd. Rydym yn rhagweld bod y gwaith o ddatblygu'r cynlluniau ardal yn fodd o uchafu y nifer o asedau boed yn adeilad neu dir sydd yn cael ei drosglwyddo i reolaeth gymunedol ar gyfer budd cymunedol, ac yn fodd o ddatblygu mwy o ddiddordeb ac anogaeth cymunedol i gymryd rheolaeth o asedau er budd eu cymunedau. Byddwn yn parhau i gefnogi grwpiau i gryfhau capasiti o fewn cymunedau i adnabod cyfleoedd a chefnogi i adnabod ffynonellau ariannu ar gyfer cynlluniau busnes a sicrhau cynllun hyfyw.

Casgliad
Wedi ei gwblhau – gwaith parhaus

## 2. Taliadau Uniongyrchol ar gyfer Gofal Cymdeithasol i Oedolion

Adroddiad cenedlaethol gan Archwilio Cymru gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2022
Dolen i'r adroddiad ar wefan Archwilio Cymru

Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad
Yn rhan 1, mae'r adroddiad yn argymell bod awdurdodau lleol:
-Yn adolygu gwybodaeth gyhoeddus gan drafod gyda defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr i sicrhau ei bod yn eglur, yn gryno ac yn egluro'n llawn yr hyn y mae angen iddynt ei wybod am Daliadau Uniongyrchol.
-Yn gwneud gwaith hyrwyddo ychwanegol i annog pobl i ddefnyddio Taliadau Uniongyrchol.
-Yn sicrhau bod gwasanaethau eiriolaeth yn cael eu hystyried ar y pwynt cyswllt cyntaf i roi cyngor annibynnol ynghylch Taliadau Uniongyrchol i ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr.
-Yn sicrhau bod gwybodaeth am Daliadau Uniongyrchol ar gael yn y drws blaen i ofal cymdeithasol a'u bod yn cael eu cynnwys yn y drafodaeth gychwynnol am yr opsiynau o ran gofal sydd ar gael i ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr.

-Yn darparu hyfforddiant ar gyfer gweithwyr cymdeithasol ar Daliadau Uniongyrchol i sicrhau eu bod yn deall eu potensial yn llawn ac yn teimlo’n hyderus yn eu hyrwyddo i ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr.

Yn rhan 2:
-Yn cydweithio i ddatblygu Cynllun Recriwtio a Chadw ar y cyd ar gyfer Cynorthwywyr Personol.
-Yn egluro disgwyliadau polisi mewn iaith glir, hygyrch ac yn nodi: yr hyn y gall Taliadau Uniongyrchol dalu amdano; sut y mae prosesau ymgeisio ac asesu, graddfeydd amser a phrosesau adolygu’n gweithio; sut y bydd monitro taliadau uniongyrchol a’r gwaith papur sy’n ofynnol i wirio taliadau’n gweithio; sut y bydd arian nas defnyddiwyd yn cael ei drin a pha un a ellir ei fancio; a sut i weinyddu a rheoli cyllidebau cyfun.

Yn rhan 3:
-Yn cydweithio i sefydlu system i werthuso Taliadau Uniongyrchol yn llawn a honno’n system sy’n cofnodi pob elfen o’r broses – gwybodaeth, hyrwyddo, asesu, rheoli a gwerthuso effaith ar lesiant ac annibyniaeth.
-Cyhoeddi gwybodaeth am berfformiad yn flynyddol ar gyfer pob elfen o Daliadau Uniongyrchol i’w gwneud yn bosibl cael golwg system gyfan ar y modd y cânt eu darparu ac o’u heffaith i gefnogi gwelliant.

<u>Trywydd y drafodaeth ar yr argymhellion</u>
Adroddiad mewn ymateb i fater cenedlaethol yw hwn, does dim argymhellion penodol i Wynedd. Serch hynny, mae’r argymhellion wedi eu cysidro gan y Gwasanaeth Busnes a Chomisiynu Gofal ar ran yr Adran Oedolion a’r Adran Blant, ac yn cael eu gweithredu. Mae’r defnydd o daliadau uniongyrchol yng Ngwynedd wedi bod ymysg yr isaf yng Nghymru a nid yw'r gwasanaeth wedi bod o'r safon y byddem yn ddymuno, ond mae hyn wedi derbyn sylw fel y disgrifir isod, ac mae’r defnydd o daliadau uniongyrchol ar gynnydd. Mae peth gwaith i’w wneud eto, ond bydd hyn yn rhan o waith parhaus y Gwasanaeth busnes a chomisiynu gofal.

<u>Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella</u>
Rhan 1 a Rhan 2:
Mae’r drefn taliadau uniongyrchol yng Ngwynedd yn gliriach erbyn hyn, gyda’r gwasanaeth wedi ei fewnoli yn ei gyfanrwydd. Mae defnyddwyr taliadau uniongyrchol yn cael dewis eu darparwr cyflogres eu hunain lle y byddant yn cyflogi gweithwyr eu hunain. Mae’r drefn yn rhoi fwy o lais a rheolaeth i ddefnyddwyr taliadau uniongyrchol yn unol a’r Ddeddf, ond yn rhoi fwy o reolaeth a throsolwg i’r Adran hefyd.

Mae grŵp prosiect wedi adolygu y wybodaeth cyhoeddus sydd ar gael am daliadau uniongyrchol, adolygu’r taflenni hyrwyddo ayyb, a sicrhau fod y wybodaeth syml a hygyrch yma ar gael i weithwyr yn y rheng flaen yn ogystal a'r cyhoedd. Mae gan y tîm taliadau uniongyrchol berthynas agosach efo’r cymorthyddion personol, gyda gwaith pellach i’w wneud ar yr elfen yma.

Mae angen parhau gyda hyfforddiant i weithwyr cymdeithasol a therapyddion galwedigaethol i sicrhau eu bod yn hyderus o’r drefn ac yn hyderus i’w hyrwyddo, ac mae’r gwaith yma yn rhan o ddatblygiad dydd i ddydd y gwasanaeth.

Rhan 3:
Mae’r gwasanaeth yn adrodd yn gyson drwy drefn herio a chefnogi perfformiad y Cyngor ar ddefnydd taliadau uniongyrchol, ond mae llawer mwy i’w wneud. Mae trafodaethau yn parhau ar sefydlu system adrodd ar berfformiad fwy cynhwysfawr yn cynnwys eu effaith ar unigolion a’u gofalwyr ar ôl eu rhoi mewn lle. Mae system werthuso cynhwysfawr eto i’w datblygu, a hyn yn rhan o waith dydd i ddydd y tîm bellach. Mae gwaith yn mynd ymlaen i drafod sut mae siroedd eraill yn gwerthuso, a sut gallwn ddysgu o ymarfer da.

Bydd y gwaith o ddatblygu’r gwasanaeth taliadau uniongyrchol yng Ngwynedd yn parhau, a’r gobaith yw penodi arweinydd yn fuan fydd yn gyrru y gwasanaeth yn ei flaen, ymysg gwasanaethau ataliol eraill megis technoleg ayyb.

Casgliad
Wedi ei gwblhau – gwaith parhaus.

**3. Amser am newid – Tlodi yng Nghymru**

Adroddiad Cenedlaethol gan Archwilydd Cyffredinol Cymru Tachwedd 2022
Dolen i'r adroddiad ar wefan Archwilio Cymru

Cynigion Gwella yn codi o’r adroddiad sydd angen diweddariad –

Argymhelliad 2
**Strategaethau, targedau ac adroddiadau ar berfformiad lleol ar gyfer mynd i’r afael â thlodi a’i leddfu**
Ym Mharagraffau 2.13 – 2.23 a Pharagraffau 3.33 – 3.35 rydym yn amlygu bod cynghorau a phartneriaid wedi blaenoriaethu gwaith ar dlodi, ond bod y cymysgedd o ddulliau a thirwedd cyflawni gymhleth yn golygu bod uchelgeisiau, ffocws, camau gweithredu a blaenoriaethau’n amrywio’n eang. Rydym yn tynnu sylw at y ffaith bod gwerthuso gweithgarwch a’r modd yr adroddiad ar berfformiad hefyd yn amrywiol gyda llawer o fylchau. Rydym ni’n argymell bod y cynghorau’n defnyddio eu Cynlluniau Llesiant i roi ffocws cynhwysfawr ar fynd i’r afael â thlodi i gydlynu eu hymdrechion, diwallu anghenion lleol a chefnogi’r targedau a’r camau gweithredu yn y cynllun cenedlaethol diwygiedig. Dylai hyn:
• gynnwys camau gweithredu lleol CAMPUS gyda mwy o bwyslais ar atal;
• cynnwys cynllun adnoddau manwl ar gyfer oes y strategaeth;
• cael ei ddatblygu gydag ymwneud gan bartneriaid eraill yn y sector cyhoeddus, y trydydd sector, a’r rhai sydd â phrofiad o dlodi;
• cynnwys set gadarn o ddangosyddion a mesurau canlyniadau cyson i gynyddu dealltwriaeth am dlodi yn lleol; a
• bod yn destun adroddiadau cyhoeddus blynyddol er mwyn gallu bod â golwg system gyfan ar dlodi’n lleol i helpu i wella’r broses gyflawni a chymorth.

Argymhelliad 5
**Mapio profiadau i greu gwasanaethau cynhwysol i bobl mewn tlodi**
Ym Mharagraffau 3.2 – 3.6 rydym yn tynnu sylw at y ffaith bod pobl mewn tlodi yn aml mewn argyfwng, yn ymdrin â materion personol a materion sy'n llawn straen, ond maent yn aml yn ei chael hi'n anodd cael gafael ar gymorth gan gynghorau oherwydd y ffordd y caiff gwasanaethau eu dylunio a'u darparu. Rydym yn argymell bod cynghorau'n gwella eu dealltwriaeth am 'brofiad personol' eu trigolion trwy eu cynnwys mewn modd ystyrlon wrth wneud penderfyniadau gan 'fapio profiadau' a/neu ddefnyddio 'Comisiynau'r Gwirionedd am Dlodi' i adolygu a gwella hygyrchedd gwasanaethau'r cyngor a'r defnydd ohonynt.

Argymhelliad 8
**Cydymffurfio â'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol**
Ym Mharagraffau 3.27 i 3.32 rydym yn nodi, er bod pob cyngor yn cynnal rhyw fath o asesiad i bennu effaith economaidd-gymdeithasol debygol dewisiadau a phenderfyniadau polisi, bod dulliau'n amrywio ac nad ydynt bob amser yn effeithiol. Rydym ni'n argymell bod cynghorau yn adolygu eu hasesiadau effaith integredig neu ddogfennau cyfwerth er mwyn:
• sicrhau eu bod yn defnyddio data perthnasol, cynhwysfawr a chyfredol (dim byd dros 12 mis oed) i ategu dadansoddiad;
• sicrhau bod asesiadau effaith integredig yn casglu gwybodaeth am:
  - weithgarwch cynnwys sy'n nodi'r rhai y mae'r gwasanaeth wedi ymgysylltu â hwy wrth benderfynu ar ei bolisi strategol megis partneriaid, defnyddwyr gwasanaethau a'r rhai y mae'n cydgynhyrchu â hwy;
  - yr effaith gronnus/camau lliniaru i sicrhau bod yr asesiad yn ystyried materion yn eu crynswth a sut mae'n cysylltu ar draws gwasanaethau a ddarperir ar draws y cyngor;
  - sut y bydd y cyngor yn monitro ac yn gwerthuso'r effaith ac yn cymryd camau cywiro; a
  - chynllun gweithredu sy'n nodi'r gweithgareddau y bydd y Cyngor yn eu cyflawni o ganlyniad i'r Asesiad Effaith Integredig

<u>Trywydd y drafodaeth ar yr argymhellion</u>

**Argymhelliad 2**
Mae'r Cynllun Llesiant 2023-28 yn blaenoriaethu gweithio gyda'n gilydd i liniaru effaith tlodi ar lesiant ein cymunedau. Rydym wedi comisiynu Sefydliad Bevan i hwyluso tri gweithdy yng Ngwynedd a Môn er mwyn sicrhau bod gan sefydliadau yn yr ardal ddealltwriaeth gyffredin o dlodi ac i helpu sefydliadau i feddwl yn fwy strategol am eu rôl wrth ddarparu datrysiad. Bu peth llithriad gyda'r amserlen, ond bydd y rhaglen waith yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgorau Craffu ym mis Ionawr (Gwynedd) a mis Mawrth (Môn).

**Argymhelliad 5**
Rydym wedi cwblhau gwaith yn deall profiadau pobl Gwynedd o fwy mewn tlodi. Mae trigolion wedi dweud wrthym bod cael gafael ar y wybodaeth ddiweddaraf or holl gymorth sydd ar gael mewn un lle yn ddefnyddiol ac felly mae ein gwefan Help gyda Costau Byw yn cael ei chynnal ai diweddaru yn rheolaidd gyda'n gwybodaeth ein hunain a'n partneriaid;

mae trigolion hefyd wedi dweud wrthym fod angen iddynt gysylltu gyda mwy nag un gwasanaeth a drwy ddulliau arferol megis dros y ffôn, ymweld a swyddfeydd yn anodd, felly rydym wedi cynnal cyfres o ddigwyddiadau ar y cyd gyda'n partneriaid yn mynd a gwasanaethau i neuaddau pentref ac ati drwy'r sir.

Bu i ni gefnogi unigolion bregus yn dilyn Storm Darragh, ac rydym wedi cefnogi pobl hyn efo'r credit pensiwn. Yn ogystal, penodwyd cydlynydd newydd yn ddiweddar, fydd yn datblygu'r gwaith yma ymhellach.

**Argymhelliad 8**
Mae Cyngor Gwynedd yn rhan o Rwydwaith Cydraddoldeb Sector Gyhoeddus Gogledd Cymru. Mae aelodau RhCSGGC (y 6 sir, BIPBC, Parc Cenedlaethol Eryri, Heddlu Gogledd Cymru, y Gwasanaeth Tân ac Achub a'r Gwasanaeth Ambiwlans) wedi defnyddio eu harbenigedd a gwybodaeth, a chreu twlsyn integredig sy'n cynnwys cydraddoldeb, y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol, y Gymraeg a hawliau dynol. Dilynwyd canllawiau Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a derbyniwyd mewnbwn gan swyddfeydd y Comisiwn hwnnw a Chomisiynydd yr Iaith. Bwriad y twlsyn ydi hwyluso gwaith partneriaethol (trwy gael un ffurflen cydnabyddedig) a hefyd er mwyn defnydd y mudiadau unigol. Mae nifer o Aelodau RhCSGGC yn defnyddio fersiwn ohono. Rydym erbyn hyn yn defnyddio ein fersiwn ni ohono, ar ap electroneg, ac mae'n cynnwys cwestiynau ar ymgysylltu, effaith gronnus, camau lliniaru, monitro effaith a chynllun gweithredu pellach.

Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella
Mae nifer o argymhellion yr adroddiad hwn eisoes wedi eu cyflawni, a ceir diweddariad ar y gweddill uchod.

Casgliad
A2 - Ar waith.

A5 – Ar waith.

A8 - Wedi ei gwblhau – gwaith parhaus

Amserlen
Yn cael ei datblygu ar hyn o bryd.

**4.** **<u>Asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb: mwy nag ymarfer blwch ticio?</u>**
Adroddiad Cenedlaethol gan Archwilydd Cyffredinol Cymru Medi 2022
<u>Dolen i'r adroddiad ar wefan Archwilio Cymru</u>

<u>Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad</u> –

Argymhelliad 2
**Creu darlun o sut olwg sydd ar asesiad effaith integredig da**
Mae llawer o gyrff cyhoeddus yn cynnal asesiadau effaith integredig sy'n cynnwys ystyried y DCSC ochr yn ochr â dyletswyddau eraill. Ond mae'r arfer yn anghyson ac yn aml yn cynnwys coladu nifer o asesiadau mewn un lle, yn hytrach na'u bod wir wedi'u hintegreiddio, i helpu i sicrhau cymaint o'r manteision a fwriadwyd â phosibl yn sgil asesiadau effaith integredig, dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda rhanddeiliaid allweddol sydd â buddiant yn y meysydd a gwmpesir yn gyffredin gan asesiadau effaith integredig a'r rhai sydd â phrofiadau byw, i rannu yr hyn a ddysgwyd a gweithio tuag at ddealltwriaeth gyffredin o sut olwg sydd ar asesiad effaith integredig da

Argymhelliad 4
**Adolygu dull presennol cyrff cyhoeddus o gynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb**
Er bod enghreifftiau o arfer da sy'n gysylltiedig â chamau penodol o broses Asesu'r effaith ar Gydraddoldeb, mae gan bob corff cyhoeddus wersi i'w dysgu am eu dull cyffredinol. Dylai cyrff cyhoeddus adolygu eu dull cyffredinol o ymdrin ag Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb gan ystyried canfyddiadau'r adroddiad hwn a'r canllawiau manwl sydd ar gael gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ac ar y Tudalennau Arferion. Rydym yn cydnabod y gallai datblygiadau mewn ymateb i'n hargymhelliad arall ac adolygiad Llywodraeth Cymru o'r rheoliadau DCSC penodol i Gymru fod â goblygiadau ar gyfer y canllawiau presennol maes o law

<u>Trywydd y drafodaeth ar yr argymhellion</u>
Mae'r argymhellion yma'n rai cyffredinol genedlaethol ac felly nid ydynt i gyd yn berthnasol i ni yng Nghyngor Gwynedd.

Argymhellaid 2 – eto'n fater i'r Llywodraeth yn bennaf, ond dylid nodi fod aelodau Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Gyhoeddus Gogledd Cymru (RhCSGGC - y 6 sir, BIPBC, Parc Cenedlaethol Eryri, Heddlu Gogledd Cymru, y Gwasanaeth Tân ac Achub a'r Gwasanaeth Ambiwlans) wedi penderfynu defnyddio eu harbenigedd a gwybodaeth a chreu twlsyn integredig sy'n cynnwys cydraddoldeb, y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol, y Gymraeg, a hawliau dynol. Dilynwyd canllawiau manwl y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a derbyniwyd mewnbwn gan swyddfeydd y Comisiwn hwnnw a Chomisiynydd yr Iaith. Bwriad y twlsyn ydi hwyluso gwaith partneriaethol (trwy gael un ffurflen cydnabyddedig) a hefyd er mwyn defnydd y mudiadau unigol. Mae nifer o Aelodau RhCSGGC yn defnyddio fersiwn ohono. Rydym ni wedi addasu ychydig arno ar gyfer dibenion lleol ac yn ei ddefnyddio ar ffurf ap electroneg.

Argymhelliad 4 – Credwn fod y defnydd o'r ap asesu effaith electroneg newydd wedi gwella ein darpariaeth, gan ei fod yn annog y rhai sy'n ei lenwi ystyried y mater yn fwy dwys. Wedi

dweud hynny, rydym yn parhau i edrych allan am ymarfer da ac arweiniad pellach, ac yn barod iawn i addasu.

Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella
Mae'r fersiwn newydd o'r asesiad effaith yn awr yn weithredol a byddwn yn ei addasu yn ôl yr angen.

Casgliad
Wedi ei gwblhau – gwaith parhaus

**5. Cyngor Gwynedd – Diweddariad ar Gynnydd Datgarboneiddio**
Llythyr gan Archwilydd Cyffredinol Cymru Rhagfyr 2022
Dolen i'r adroddiad ar wefan Archwilio Cymru

Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad sydd angen diweddariad

A1 Dylai'r Cyngor sicrhau bod y camau lefel uchel yn ei gynllun datgarboneiddio:
- wedi'u blaenoriaethu yn seiliedig ar feini prawf clir, gan gynnwys effaith carbon ac ariannol;
- yn cyd-fynd â'i Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a'i Raglen Gyfalaf;
- wedi'u hintegreiddio mewn cynlluniau busnes.

Trywydd y drafodaeth ar yr argymhellion:

Argymhelliad 1

Mae Cynllun-Argyfwng-Hinsawdd-a-Natur.pdf Cyngor Gwynedd (CAHN) yn cael ei fonitro gan y Bwrdd Hinsawdd a Natur, sy'n cynnwys Arweinydd y Cyngor, Aelodau Cabinet, Prif Swyddogion a chynrychiolydd o bwyllgorau craffu. Mae'r Bwrdd yn monitro datblygiad a gwariant ar brosiectau o fewn y CAHN, ac yn cynnig arweiniad ar flaenoriaethau neu brosiectau newydd.

Yn ystod 2024 rydym wedi bod yn adolygu'r CAHN er mwyn sicrhau bod ein blaenoriaethau yn dal yn gyfredol, ac i ddileu neu ychwanegu prosiectau newydd. Bydd trafodaethau pellach ar y adolygiad yn cael eu cynnal yn y Grŵp Gweithredol Hinsawdd a Natur (swyddogion y Cyngor) a'r Bwrdd Hinsawdd a Natur dros y misoedd nesaf gan flaenoriaethu ar sail yr effaith o ran carbon ac arbedion ariannol a'r hyn y gellir ei gyflawni o fewn y gyllideb sydd ar gael.

Mewn cyfarfod o Gabinet y Cyngor ar 12 Mawrth 2024 cytunwyd i ddirprwyo gwariant o'r swm sy'n weddill yng nghronfa hinsawdd y Cyngor i'r Prif Weithredwr mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd ac aelodau'r Bwrdd Hinsawdd a Natur.

Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella:

Argymhelliad 1

Mae pob prosiect wedi ei gynnwys yn y Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur oherwydd y bydd yn lleihau allyriadau carbon, neu'n cynyddu lefelau amsugno carbon. Nid ydym wedi oedi er mwyn prisio pob un prosiect yn ariannol cyn cychwyn gweithredu, ond yn hytrach wedi blaenoriaethu'r prosiectau fydd yn lleihau ein allyriadau carbon yn y categorïau ble mae gennym ddata dibynadwy am allyriadau uchel – ee. Gosod paneli solar PV a gweithredu ein Cynllun Fflyd Werdd.

Cyn penderfynu buddsoddi mewn prosiect newydd bydd cynllun busnes sy'n cynnwys dadansoddiad o arbedion carbon a buddsoddiad ariannol yn cael eu trafod gan y Bwrdd Hinsawdd a Natur, a ble mae angen byddant wedyn yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet. Mae hyn oll, felly, yn digwydd yng nghyd destun y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a'r Raglen Gyfalaf.

Mae'r broses o adolygu strategaethau a chynlluniau busnes y Cyngor yn waith parhaus, ond yn ystod 2024/25 fe gyhoeddodd CLlLC (WLGA) ganllawiau ar sut fedr awdurdodau lleol geisio lleihau allyriadau carbon drwy eu prosesau caffael, drwy reolaeth tiroedd a thrwy deithio busnes a chymudo. Mae gwaith ar y gweill ar hyn o bryd i ddefnyddio'r canllawiau newydd er mwyn integreiddio arbedion carbon i mewn i'n prosesau o ddatblygu a gwerthuso cynlluniau busnes.

Casgliad:
Wedi ei gwblhau – gwaith parhaus.

**6. 'Cyfle wedi'i golli' – Mentrau Cymdeithasol**

Adroddiad gan Archwilydd Cyffredinol Cymru Rhagfyr 2022

Dolen i'r adroddiad ar wefan Archwilio Cymru

Argymhellion yn codi o'r adroddiad:

A1 I gael y gorau o'u gwaith gyda a'u cyllid ar gyfer Mentrau Cymdeithasol, mae angen i awdurdodau lleol sicrhau bod ganddynt y trefniadau a'r systemau cywir yn eu lle. Rydym yn argymell bod swyddogion awdurdodau lleol yn defnyddio'r rhestr wirio yn Atodiad 2 i:

- hunanwerthuso gweithgarwch ymgysylltu, rheoli, perfformiad ac arfer mewn perthynas â Mentrau Cymdeithasol ar hyn o bryd;
- adnabod cyfleoedd i wella cydweithio; a
- mynd ati ar y cyd i ddrafftio a chyflawni cynllun gweithredu gyda graddfeydd amser a chyfrifoldebau wedi'u nodi'n glir i fynd i'r afael â'r bylchau a'r gwendidau a nodwyd trwy'r hunan-werthusiad.

A2 I lywio gwelliant rydym yn argymell bod yr awdurdod lleol:

- yn cymeradwyo'r Cynllun Gweithredu a gwblhawyd yn ffurfiol;

• yn mynd ati'n rheolaidd i adrodd ar berfformiad, ei fonitro a'i werthuso mewn pwyllgorau craffu perthnasol; ac
• yn diwygio camau gweithredu a thargedau yng ngoleuni gwerthusiad ac asesiad yr awdurdod o'i berfformiad.

A3 Er mwyn sicrhau bod yr awdurdod lleol yn cyflawni ei gyfrifoldebau dan adran 16 i hyrwyddo Mentrau Cymdeithasol rydym yn argymell ei fod yn adrodd ar weithgarwch cyfredol a blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol yn dilyn gwerthuso ei Gynllun Gweithredu gan gynnwys Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol.

Trywydd y drafodaeth ar yr argymhellion:

Mae'r atodiad yn restr wirio mewn tair rhan, sef Strategaeth, Comisiynu a Chaffael a Rheoli Perfformiad.

Mae'r gwaith ar ddatblygu strategaeth a gweledigaeth wedi dechrau drwy gynnal cyfarfod wyneb i wyneb ar y cyd gyda cynrychiolwyr o fentrau cymdeithasol Gwynedd ym mis Gorffennaf. Cynhaliwyd gweithdy a rhoddwyd y cyfle i'r mynychwyr (Trydydd Sector, Swyddogion Cyngor a Chynghorwyr) gyfrannu at ddatblygu a chydgynhyrchu blaenoriaethau gweithredu gennym fel Cyngor.

O ran yr elfennau Comisiynu, Caffael a Rheoli Perfformiad, mae sawl pwynt yn y Rhestr Wirio eisoes yn eu lle ac yn weithredol a bwriedir adeiladu ar hynny dros y misoedd nesaf. Cyhoeddwyd Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad yn ddiweddar ar gyfer Gwynedd a datblygwyd hwnnw drwy drafodaethau gyda'r 3ydd sector a darparwyr eraill.

Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella:

**A1**
Cwblhawyd y restr wirio hunan-asesiad a tynnwyd sylw mentrau cymdeithasol lleol tuag at yr adroddiad. Cafwyd trafodaeth hefyd mewn cyfarfod y Grŵp Trydydd Sector gyda chynrychiolwyr o'r 3ydd sector, Cynghorwyr a Swyddogion yng Ngwynedd i hunan werthuso ein hymgysylltu, rheoli perfformiad a monitro. Aiff y gwaith hwn yn ei flaen.

**A2**
Cynhelir grŵp traws adrannol yn rheolaidd i ail-lunio a chyfeirio y Compact (cytundeb rhwng y Cyngor a'r 3ydd Sector) gyda Mantell Gwynedd yn rhan o'r gwaith hwn. Ymgynghorir hefyd gyda'r Grŵp 3ydd Sector ar y gwaith hwn a bwriedir dod a'r gwaith i'r Cabinet yn fuan.

Mae Mantell Gwynedd yn cydweithio gyda swyddogion comisiynu o fewn y Cyngor i ystyried sut mae monitro perfformiad a sicrhau gwerth cymdeithasol am arian tra'n gwneud hynny. Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo.

**A3**
Mae gennym ddealltwriaeth o'n gwaith datblygu a hyrwyddo mentrau cymdeithasol yn unol a'r gofyn yn nyletswydd Adran 16. Cynhwysir adroddiad ar y gwaith hwn yn Adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol yn flynyddol.

Casgliad:
Wedi ei gwblhau – gwaith parhaus.

## Adroddiadau ychwanegol ers Chwefror 2024

**7. Datblygu cynaliadwy? – gwneud y defnydd gorau o dir llwyd ac adeiladau gwag.**
Archwilio Cymru
Dolen i'r adroddiad ar wefan Archwilio Cymru

Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad:

A1
Er mwyn galluogi rhanddeiliaid i asesu safleoedd posibl, dylai cynghorau greu proses systematig i ddod o hyd i safleoedd addas ar gyfer adfywio a rhoi cyhoeddusrwydd iddynt:
• dylai hyn dynnu ar ddata sydd eisoes gan gynghorau, yn ogystal â ffynonellau data allanol i ddatblygu darlun cyfansawdd a mwy cyflawn o safleoedd; a
• lle y bo'n hysbys, dylid enwi rhwystrau allweddol i helpu ymdrechion i'w goresgyn.

A2
Er mwyn helpu i sicrhau bod gweithgarwch adfywio a gwaith i lunio'r amgylchedd yn cael ei oleuo gan anghenion cymunedau dylai Cynghorau gynyddu cyfleoedd i gynnwys y gymuned mewn rhaglenni adfywio, wrth greu cynlluniau a chyflawni'r gwaith datblygu ei hun.

A3
Er mwyn darparu ffocws ac ysgogiad i ddatblygu safleoedd tir llwyd dylai Cynghorau adolygu eu dulliau adfywio presennol a, lle y bo hynny'n briodol, pennu polisïau a thargedau adfywio cliriach, mwy uchelgeisiol. Gyda'i gilydd, dylai'r rhain:
• ddisgrifio dull a disgwyliadau'r Cyngor;
• disgrifio sut y byddant yn darparu adnoddau ar gyfer eu dull; a
• disgrifio sut y mae'r dull yn cyd-fynd â nodau polisi cenedlaethol a blaenoriaethau cynllunio rhanbarthol.

Trywydd y drafodaeth ar yr argymhellion:

**A1**
Fel rhan o'r broses o greu Cynllun Datblygu Lleol newydd i Ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd un darn o sail tystiolaeth bydd y Gwasanaeth Polisi Cynllunio yn ymgymryd arno fydd Astudiaeth Capasiti Trefol. Pwrpas y gwaith hyn fydd adnabod safleoedd (tiroedd ac adeiladau) a allai fod ar gael er mwyn diwallu anghenion datblygu yn ystod oes y Cynllun, er

enghraifft ar gyfer defnydd tai a chyflogaeth. Bydd y gwaith hyn yn cael ei gynnal ar gyfer y prif aneddleoedd gyda ystyriaeth penodol yn cael ei roddi i diroedd llwyd.

Wedi adnabod safleoedd posib bydd trafodaethau yn cael eu cynnal efo Gwasanaethau eraill i asesu addasrwydd unrhyw safleoedd i'w dynodi o fewn y Cynllun. Bydd hyn yn ystyried unrhyw rhwystrau allweddol i'w datblygu.

Fodd bynnag mae'n rhaid cydnabod oherwydd natur wledig yr ardal, yn flaenorol mae cyfleon i ddynodi tir llwyd o faint wedi bod yn gyfyngedig.

**A2**

Fel rhan o broses y Cynllun Datblygu Lleol newydd mae'r Cytundeb Cyflawni yn cynnwys Cynllun Cynnwys Cymunedau. Mae hyn yn rhoi cyfleoedd cyfranogi i rhanddeiliaid, gan gynnwys y cyhoedd, yn y camau allweddol o baratoi'r Cynllun.

Yn ogystal un cam o fewn y broses o baratoi'r Cynllun yw'r galw am safleoedd ble bydd cyfle i gynnig tiroedd i'w cynnwys yn y Cynllun.

Mae Cyngor Gwynedd wedi datblygu Fframwaith Adfywio newydd ar gyfer y sir; yn cynnwys 13 o gynlluniau adfywio ar gyfer dalgylchoedd lleol. Fel rhan o'r broses, trefnwyd ymgyrch ymgysylltu lleol er mwyn adnabod prif faterion a blaenoriaethau lleol. Mae'r Cynlluniau adfywio lleol drafft wedi eu paratoi gan adlewyrchu blaenoriaethau cymunedau lleol.

**A3**

Mae Polisi Cynllunio Cymru (PCC) (Rhifyn 12/ Chwefror 2024) yn datgan cefnogaeth i ddatblygu tiroedd llwyd ble medrir pan mae'r safleoedd yn addas.

Mae Polisi yn y Cynllun presennol a'r gyfer rhoi blaenoriaeth i ddatblygu tir llwyd a mi fydd yna Bolisi tebyg yn y Cynllun newydd.

Ar gyfer gosod targedau yn y Cynllun mae paragraff 4.2.19 yn datgan fod "...darparu safleoedd adfywio sy'n seiliedig ar dai yn gallu bod yn anodd weithiau, gan ei gwneud yn anodd nodi amserlenni datblygu. Pan fo gallu i gyflawni'n broblem, dylai awdurdodau cynllunio ystyried hepgor y cyfryw safleoedd o'u cyflenwad tai er mwyn sicrhau nad ydynt yn dibynnu arnynt i fodloni gofyniad tai eu cynllun datblygu...". Mae hyn yn plethu efo'r angen i sicrhau ymarferoldeb (deliverability) safleoedd cyn ei cynnwys yn y Cynllun. Gall hyn olygu ei fod yn anodd i osod targed penodol o fewn y Cynllun Datblygu i safleoedd adfywio.

Fel rhan o'r broses o baratoi'r Cynllun newydd mi fydd y Gwasanaeth Polisi Cynllunio yn trafod efo Gwasanaethau eraill cynlluniau penodol y dylid ei cynnwys yn y Cynllun. Gall hyn gynnwys safleoedd adfywio os ydynt yn bodloni'r gofynion ymarferoldeb.

Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella:

**A1**

Mae’r broses o baratoi’r Cynllun Datblygu Lleol newydd yn mynd rhagddo ac mae Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo’r Cytundeb Cyflawni ar gyfer y Cynllun ers Ebrill 2024, sydd yn gosod allan yr adnoddau fydd y Cyngor yn eu darparu ar gyfer paratoi’r Cynllun, yn ogystal a gosod amserlen o 3 mlynedd a hanner ar gyfer cwblhau’r gwaith. Mae’r camau ar gyfer paratoi’r Cynllun newydd yn cynnwys proses systematig (gweler cyfeiriad at “galw am safleoedd” yn A2 isod fel enghraifft o hyn) o adnabod safleoedd addas ar gyfer cwrdd ac anghenion datblygu’r ardal dros y 15 mlynedd nesaf.

Yn y cyfamser, bydd ceisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau newydd yn parhau i gael eu penderfynu yn unol a’r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, sydd hefyd wedi ei baratoi gan ddefnyddio proses systematig i ddod o hyd i’r safleoedd sydd wedi eu dynodi’n addas ar gyfer eu datblygu.

**A2**

Mae’r Cynllun Cynnwys Cymunedau sydd yn rhan o’r Cytundeb Cyflawni, sydd wedi ei gymeradwyo gan Llywodraeth Cymru, eisoes yn cael ei weithredu fel rhan o’r broses o baratoi’r Cynllun newydd.

Mae’r cyfnod ar gyfer galw am safleoedd, lle gall datblygwyr a’r cyhoedd gynnig safleoedd / tiroedd ar gyfer eu datblygu neu eu gwarchod, wedi cychwyn ac wedi ei ymestyn at ddiwedd Ionawr 2025, gyda’r broses yma yn cynnwys ymgynghori eang gyda chymunedau.

**A3**

Mae ysgogi datblygu safleoedd tir llwyd yn cael ei gefnogi ym mholisïau’r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, a bydd hyn hefyd yn cael ei gyfarch yn y broses o baratoi’r Cynllun newydd.

Mae ystyriaeth yn cael ei roi i’r Fframwaith Adfywio ar gyfer y Sir a’r Cynlluniau Adfywio Ardal wrth baratoi’r Cynllun newydd, ac mae disgwyl hefyd i’r Cynllun gyd-fynd gyda pholisïau cenedlaethol.

Casgliad:

Wedi ei gwblhau – gwaith parhaus.

**8. Gosod Amcanion Llesiant – Cyngor Gwynedd**

Archwilio Cymru

[Dolen i’r adroddiad ar wefan Archwilio Cymru]

Cynigion Gwella yn codi o’r adroddiad:

A1

**Cyflawni amcanion llesiant**

Dylai'r Cyngor sicrhau bod y gwaith o bennu'r gyllideb neu lunio cynllun ariannol tymor canolig yn cyd-fynd yn glir ag amcanion llesiant newydd y Cyngor, fel bod eglurder ynghylch

sut y gallai targedau arbedion neu ansicrwydd ariannol hysbys yn y dyfodol effeithio ar ei allu i gyflawni ei amcanion llesiant cyfredol.

A2

**Mesurau a threfniadau monitro priodol**

Dylai'r Cyngor sicrhau ei fod yn datblygu mesurau canlyniadau priodol ac yn monitro, adrodd a chraffu'n effeithiol ar y cynnydd sy'n cael ei wneud o ran cyflawni ei amcanion llesiant cyfredol.

A3

**Gwella llesiant a chael effaith eang**

Dylai'r Cyngor fapio sut y gallai gwaith y Cyngor gefnogi amcanion partneriaid, ac i'r gwrthwyneb, wrth bennu amcanion llesiant ar gyfer y dyfodol fel y gall adnabod cyfleoedd i gydweithio ag eraill.

A4

**Cynnwys ac ymgynghori**

Dylai'r Cyngor ymestyn ei rwydweithiau rhanddeiliaid wrth osod amcanion llesiant ar gyfer y dyfodol a cheisio cynnwys pobl sy'n adlewyrchu amrywiaeth lawn y sir.

Trywydd y drafodaeth ar yr argymhellion:

Argymhellion wedi'i derbyn a chynlluniau wedi eu rhoi yn eu lle er mwyn ymateb. Cyflwynwyd y ffurflen ymateb sefydliadol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn y cyfarfod ar y 23ain o Fai 2023.

Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella:

**A1**

Cynllun Ariannol Tymor Canolig wedi ei gymeradwyo gan y Cabinet yn eu cyfarfod ar y 14 Mai 2024 felly'r gwaith hwn wedi'i gwblhau.

**A2**

Y gwaith i adnabod mesurau addas i fesur cynnydd yn erbyn ein amcanion llesiant yn dal i fynd yn ei flaen ond wedi llithro rhywfaint o'r amserlen wreiddiol a nodwyd oherwydd newidiadau staffio o fewn y Gwasanaeth Cefnogi Busnes. Bydd hyn yn derbyn sylw dros y misoedd nesaf.

**A3**

Fel rhan o waith Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn mae'r Cyngor (ynghyd a'r sefydliadau partner eraill) wedi ymrwymo i fapio'r bygythiadau a'r heriau y maent yn ei wynebu ar hyn o bryd. Y cam nesaf yw i geisio adnabod cyfleoedd i gydweithio hefo sefydliadau eraill neu efo'r holl sefydliadau fel Bwrdd (ceir rhywfaint o enghreifftiau eisoes lle mae cyfleoedd wedi eu hadnabod i gydweithio hefo sefydliadau unigol).

**A4**
Gwaith yn parhau i gynyddu'r amrywiaeth ar y Grŵp Craidd Cydraddoldeb gyda chynrychiolwyr ar gyfer pobl ifanc a phobl ifanc cwiar (queer) wedi eu hychwanegu dros y flwyddyn diwethaf. Mae gwasanaethau o fewn y Cyngor wedi elwa o ymgynghori gyda'r grŵp ar waith yn y meysydd trafnidiaeth, gwasanaeth ieuenctid, tai. Gwaith pellach i gymryd lle ym meysydd ymgysylltu, amgueddfeydd, etholiadau, a pharcio dros y misoedd nesaf.

Dros yr wythnosau nesaf byddwn yn cymryd rhan yn yr Arolwg Preswylwyr Cenedlaethol er mwyn rhoi'r cyfle i drigolion y Sir roi adborth ar sut y mae'r Cyngor yn perfformio. Fel rhan o'r gwaith hyn byddwn yn gweithredu cynllun cyfathrebu fydd yn sicrhau ein bod yn codi ymwybyddiaeth o'r arolwg gyda grwpiau nodweddion cydraddoldeb.

<u>Casgliad</u>

Ar waith.

**9. Gofal Brys ac Argyfwng: Llif allan o'r Ysbyty – Rhanbarth Gogledd Cymru**
Adroddiad gan Archwilio Cymru
<u>Dolen i'r adroddiad</u>

<u>Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad:</u>
Ceir 16 o argymhellion yn yr adroddiad – ceir y manylion llawn yma: <u>Dolen i'r adroddiad</u>

<u>Trywydd y drafodaeth ar yr argymhellion:</u>
Gan mai adroddiad rhanbarthol ydi hwn i Ogledd Cymru, paratowyd ymateb ar lefel rhanbarthol. Cafwyd trafodaeth ar hwnnw yng nghyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 10 Hydref, 2024. Cytunwyd bryd hynny y byddai diweddariad ar yr argymhellion yn cael ei ddarparu i'r Pwyllgor ymhen 12 mis.

<u>Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella:</u>
Mae camau gweithredu ar waith, a bydd adroddiad ar y cynnydd yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol fis Chwefror, 2025.

<u>Casgliad:</u>
Ar waith.

<u>Amserlen:</u>
I'w gadarnhau.